
YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2024

## Dosbarth y Gragen

## Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw datblygu dysgwyr sy'n wybodus am eu diwylliant, eu hardal leol a'u gwlad yn awr ac yn y gorffennol. Gobeithiwn ysgogi'r disgyblion i ymholi a darganfod, a datblygu chwilfrydedd am eu hunaniaeth ac am dreftadaeth Cymru. Wrth brofi rhyfeddodau Cymru, hyderwn y bydd hyn yn gymorth i ennyn ymdeimlad o le ac o berthyn. Gobeithiwn hefyd ddatblygu chwilfrydedd am wyddoniaeth a thechnoleg coginio a fydd yn eu hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'n cwmpas er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y disgyblion yn ymfalchïo yn eu diwylliant ac yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.




Allwn ni edrych ar hen dai?
Alys

Coginio!
Pawb

Dysgu am draddodiadau Cymru.
Amelia

Pam oes draig ar ein banner?
Pawb

Dysgu am Gymru.
Gracie

Ble mae Abertawe ar y map?
Ffion W, Harriet a Toby

# 'Does unman yn debyg i adre

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor:

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'X' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

**Y Dyniaethau**
Datblygu gwybodaeth ynglyn â Chymru.
Dod i adnabod rhai o fannau ac adeiladau arwyddocaol Cymru a'u lleoli ar fapiau.
Gwrando ar straeon ac hanesion am ddigwyddiadau yn hanes Cymru.
Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng heddiw a'r gorffennol.
Archwilio hanes llestri Abertawe.
Gwerthfawrogi ein cartrefi a'n teuluoedd a'r ymdeimlad o berthyn.

**Iechyd a Lles**
- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer ein sgiliau llawdriniol manwl
- Parhau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a gwneud dewisiadau doeth.
- Trafod ein cartrefi a deall bod gwahaniaethau a tebygrwydd rhwng cartrefi ein gilydd.
- Deall pwysigrwydd hylendid personol wrth goginio.
- Datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn i Gymru.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

Mwynhau canu ystod o ganeuon yn ymwneud â'r u ned ddysgu.
Archwilio ac arbrofi â'r dechneg o 'wehyddu' wrth astudio brethyn Cymreig.
Dysgu a mwynhau perfformio dawnsfeydd tradd odiadol o Gymru.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Datblygu dealltwriaeth o sut y mae rhai deunyddiau cyffredin yn newid wrth gael eu oeri, eu cynhesu neu eu cymysgu gyda deunyddiau eraill.

Mwynhau coginio ryseitiau syml er mwyn gweld y broses o newid deunyddiau.

Defnyddio offer cyfrifiadurol at wahanol ddibenion e.e casglu a trin data, creu cyflwyniadau.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener yn cael ei rannu trwy'r cyfrif Hwb ar J2pdf. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Creu cornel chwarae 'Caffi'r Ddraig Goch' a mwynhau coginio, gweini bwyd, trafod arian a bod yn gwsmeriaid a cogyddion.

Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon, chwedlau a llyfrau ffeithiol a datblygu ymdeimlad o empathi trwy straeon.

Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.

Mwynhau ysgrifennu mewn amrywiol ddulliau, gan gynnwys ysgrifennu cyfarwyddiadau a llythyr.

Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**
Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu, cyfri mewn camau, lluosi a rhannu.
Defnyddio arian ac ymarfer rhoi newid.
Datblygu ein sgiliau darllen y cloc.
Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen a mwynhau datrys problemau.

**Ymweliadau/Profiadau**

Ymweliad ag Amgueddfa San Ffagan

Ymweliad gan gwmni cyflenwi bwyd i drafod bwydydd Cymreig.

**Y Cywaith Cloi**

Cynllunio a threfnu te parti Cymreig